# Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## Canllaw Sut i Lenwi

Ionawr 2022

Paratowyd y canllawiau hyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Eu diben yw cynorthwyo Awdurdodau Rheoli Risgyng Nghymru i ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd wrth gynllunioa datblygu prosiectau a strategaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â changen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at:**Floodcoastalrisk@llyw.cymru**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG44177 ISBN digidol 978-1-80391-489-3

# Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

## Canllaw Sut i Lenwi

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi arweiniad cam wrth gam i chi ar sut i gwblhau eich Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae Llywodraeth Cymru'n darparu'r canllaw yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.


Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

**Cynnwys**


| Pwnc | Rhif y dudalen |
|---|---|
| Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan | 6 |
| Y Dudalen Ffurflenni | 6 |
| Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol - Dechrau Arni | 7 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Hysbysiad Preifatrwydd | 8 |
| Manylion y Grant Refeniw | 9 |
| Gweithgareddau i'w Cyflawni | 10 |
| Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb | 12 |
| Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau | 13 |
| Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno | 13 |
| Cyflwyno dogfennau ategol | 15 |

**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan**

Mewngofnodwch ar eich Cyfrif RPW Ar-lein – nodwch eich Rhif Defnyddiwr a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.




Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein - Hafan

I gael mynediad i'r Grant Refeniw Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch y Tab wedi'i labelu 'Ffurflenni' ar sgrin gartref RPW Ar-lein, fel y dangosir isod.





I newid yr iaith unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm ar frig y sgrin, ar y dde i'r wybodaeth am RPW Ar-lein. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis yr iaith y caiff eich Grant Refeniw Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol ei arddangos ynddo.

## Y Dudalen Ffurflenni


Ar ôl i chi ddewis y tab 'Ffurflenni', byddwch yn gweld y ffurflenni sydd ar gael i chi eu llenwi.

Dewiswch y Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol o'r rhestr




## Dechrau arni

Ar ôl darllen y Llawlyfr Rheolau, cliciwch y botwm Dechrau i ddechrau'ch cais.




## Cyflwyniad


Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n rhoi gwybodaeth am y Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.





Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.

## Hysbysiad Preifatrwydd

Dyma'r hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid i chi ei ddarllen.








Ar ôl darllen yr wybodaeth, cliciwch y botwm Nesaf.


## Manylion y Grant Refeniw

Rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau gorfodol sydd wedi'u marcio â * ar y dudalen hon.

Bydd Enw'r Awdurdod Lleol yn cael ei lenwi'n awtomatig.





Mae'r system yn archwilio data sylfaenol sydd wedi'u cynnwys o fewn y ffurflen hon a bydd negeseuon gwall neu wybodaeth yn ymddangos wedi ichi glicio 'Safio' neu 'Nesaf.




Ar ôl i chi gywiro unrhyw wallau ac ateb yr holl gwestiynau ar bob tudalen, cliciwch ar y Botwm Nesaf.

## Gweithgareddau i’w Cyflawni


Cliciwch ar y botwm Ychwanegu Gweithgaredd ichi allu ychwanegu’r gweithgareddau sy’n cael eu cynnal fel rhan o’r grant.





Ar ôl ichi glicio ar y botwm Ychwanegu Gweithgaredd, fe welwch y dudalen Gweithgareddau.

Rhaid ichi ateb pob cwestiwn gorfodol sydd â * wrtho ar y dudalen hon.

Fe welwch fwy o wybodaeth am bob cwestiwn wrth hofran y cyrchwr dros y symbol ? ar y dudalen.




Cewch ychwanegu faint bynnag o Weithgareddau sy’n briodol trwy ddewis o’r gwymplen a rhoi’r manylion yn y blychau testun.




Os ydych am nodi mwy nag un gweithgaredd, cliciwch ar Safio ac Ychwanegu Un Arall. Pan fyddwch wedi nodi’r holl weithgareddau, cliciwch ar Cadw a Dychwelyd i gael mynd yn ôl i’r brif dudalen Gweithgareddau i’w Cyflawni.


Ar ôl nodi’r holl weithgareddau, fe welwch restr wrth droed y dudalen. Gallwch newid neu ddileu unrhyw un o’r gweithgareddau trwy glicio ar y botwm Addasu neu Dileu.

.




## Tudalen Gyflwyno - Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r eitemau yr ydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu o unrhyw gamgymeriadau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.





Unwaith y bydd unrhyw wallau wedi'u cywiro, bydd tic gwyrdd yn cael ei arddangos ar bob adran




## Tudalen Gyflwyno - Datganiadau ac Ymrwymiadau

Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a ticiwch y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen ac yn cytuno â nhw.




## Tudalen Gyflwyno - Cyflwyno


I gyflwyno'ch Grant Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, cliciwch ar y Botwm Cyflwyno.



Ar ôl cyflwyno'r cais, byddwch yn cael cadarnhad y gallwch ei brintio a'i roi yn eich ffeiliau.

Gallwch hefyd gyflwyno dogfennau nawr drwy glicio ar y botwm Cyflwyno Dogfennau, neu adael y cais.

Unwaith y bydd y cais wedi'i gyflwyno gallwch ddechrau cais newydd.





Bydd crynodeb o'ch Grant Refeniw Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl "Dogfennau Taliadau Gwledig Cymru wedi dod i law ". Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen yr wybodaeth yn drylwyr. Os oes unrhyw wybodaeth yn anghywir, atebwch y neges gan esbonio eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y bo modd ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu gweld ein gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


## Cyflwyno Dogfennau Ategol

Gallwch gyflwyno dogfennau ategol ynghyd â'ch cais drwy ddewis Cyflwyno Dogfennau a dilyn y cyfarwyddiadau Creu Neges isod.





Gallwch hefyd ddarparu'r dogfennau ategol yn ddiweddarach drwy ddilyn y canllawiau isod.

I ychwanegu unrhyw ddogfennau ategol, cliciwch y Tab Goheiaeth ar sgrin hafan RPW Ar-lein a dewiswch Creu Negese, fel y dangosir isod.






Dewiswch Creu Neges






Dewiswch pa ffeil rydych chi am ei huwchlwytho i'ch neges a dewis Open.







Bydd eich dogfen wedi'i huwchlwytho yn ymddangos o dan eich neges.


Gallwch ychwanegu dogfennau eraill drwy ailadrodd y cyfarwyddiadau blaenorol.

I ddileu dogfen, dewiswch Dilëwch.

I anfon eich neges a'ch dogfennau wedi'u huwchlwytho, dewiswch Anfon.

Unwaith y bydd y neges wedi'i hanfon, byddwch yn derbyn hysbysiad ar y sgrin gyda'ch cyfeirnod.




Bydd eich gohebiaeth yn ymddangos o dan eich Tab Negeseuon.